**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr CEI NEWYDD a gynhaliwyd o bell bell drwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 30 Hydref 2025**

**Cynrychiolaeth Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Shelly Childs (Cadeirydd), Y Cynghorydd Matthew Vaux

**Swyddogion yn bresennol:** Owen Morgan, Katy Spain, Robyn Beresford, Dana Jones

**Defnyddwyr Harbwr**: Chris Seal, Jonathan Evans, y Cynghorydd Jennifer Davies (Cyngor Tref Cei Newydd), Tim Archer, Stephen Webb, David Nicholson, Meurig Lewis

(6.30pm – 7:00pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2025**

CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion cyfarfod 27 Mawrth 2025 fel cofnod cywir.

3. **Diweddariad ar Wasanaethau'r Harbwr**
   - Roedd dau gynorthwyydd tymhorol newydd (Chloe Roberts, Eve Rees) wedi ymuno â'r tîm; mae'n bosibl y bydd y ddwy ohonyn nhw yn dychwelyd y flwyddyn nesaf.
   - Penodwyd Robyn Beresford yn Arweinydd Gwaith Harbwr yn dilyn ymadawiad Chase Anders
   - Adolygwyd y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ym mis Ebrill; nod y Cyngor yw cydymffurfio'n llawn erbyn Ionawr 2026.
   - Atgoffwyd defnyddwyr i ddefnyddio'r radio Amledd Uchel Iawn (VHF) yn briodol; adroddwyd am achosion o iaith amhriodol. Sefydlwyd ardal storio dingis ar y traeth ar y cyd â Chlwb Hwylio Cei Newydd. Adroddwyd bod ardal storio dingis wedi'i sefydlu drwy gydweithrediad rhwng y Cyngor a'r clwb hwylio. Roedd cyfranogiad mewn hwylio dingis wedi cynyddu; roedd twristiaid yn dangos mwy o barch at y cychod oherwydd yr ardal wedi'i neilltuo â rhaff yn cynnwys arwyddion. Derbyniodd y cyngor ffioedd trwyddedu ac roedd y clwb hwylio yn talu costau trwy ffioedd cychod a rheoli gwirfoddolwyr. Roedd yr ardal drwyddedig a gytunwyd yn atal gorlenwi, ac mae'r potensial i'w hehangu yn cael ei ystyried er mwyn gwella mynediad i bobl anabl. Mae cynigion ehangu yn y dyfodol yn cael eu hadolygu, gan fod angen cydbwyso anghenion rhanddeiliaid ar y traeth.

- Gofynnwyd am ddiweddariad gan Ddefnyddwyr yr Harbwr ynglŷn â'r llifoleuadau ar y pier. Adroddwyd mai'r gwasanaethau ystadau oedd yn gyfrifol am y gwaith atgyweirio, a bod y cod cost angenrheidiol ar gyfer y gyllideb yn cael ei geisio er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu â'r gwasanaeth pe bai oedi.

4. **Rhestr Aros Angori wedi'i golygu**

Adroddwyd bod rhestr aros *New Quay Leisure* yn cynnwys 50 o bobl, gan gynnwys 2 yn aros am angorfeydd. Roedd rhestrau ar wahân ar gyfer defnydd masnachol, mannau parcio ceir a storio ar raciau. Roedd 60 ar y rhestr aros ar gyfer storio ar raciau, gan amlygu'r galw uchel.

5. **Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**

- Bwriedir cynnal gwaith carthu ym mis Mawrth yn harbwr Cei Newydd, i gynnwys Penpolion.
- Bwriedir atgyweirio cylchoedd angori gyda'r nod o gwblhau'r gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Bydd gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud ar y Marciau Cardinal Gogledd yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Mae'r broses gaffael yn mynd rhagddi ar gyfer grisiau, wal sydd wedi torri, ac o bosibl ffenders, gyda blaenoriaethu yn seiliedig ar y gyllideb.
- Atgoffwyd defnyddwyr masnachol i gynnal glendid yn ystod gweithgareddau cynnal a chadw cychod.

6. **Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

Adroddodd Swyddogion fod nifer y lansiadau taledig wedi cynyddu o 5 i 18 flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ystyriwyd bod y ffi lansio ddyddiol o £32.50 yn fwy derbyniol oherwydd chwyddiant. Nododd Arweinydd Gwaith yr Harbwr fod gostyngiad mewn lansiadau anawdurdodedig, ac awgrymwyd y gellid cyflwyno sticeri ar gyfer cychod awdurdodedig er mwyn liniaru'r canfyddiad nad oedd rhai wedi talu i lansio. Nodwyd hefyd fod y cynnydd o ran cydymffurfio yn deillio o ymgysylltiad rhagweithiol gan staff.